OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 531 (Cy. 161)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful i Gyfnewidfa Aberdulais, Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Ebrill 2016* |
| *Yn dod i rym* | *30 Ebrill 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd - Y Fenni (yr A465) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Ebrill 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful i Gyfnewidfa Aberdulais, Castell-nedd Port Talbot) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2016.

**2. —**(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 30 Ebrill 2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y darnau o’r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw’r darnau o’r gefnffordd ym Mwrdeistrefi Sirol Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Chastell-nedd Port Talbot a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### Gwaharddiadau

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic o’r fath gael ei reidio, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

### Cymhwyso

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

### Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 25 Ebrill 2016

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27: amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.

**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

1. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Dowlais Top hyd at ei chyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Cefncoedycymer.

2. Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain y gefnffordd yng Nghyffordd Ystad Ddiwydiannol Pant sy'n ymestyn o bwynt 12 metr i'r de o'i chyffordd â Pant Industrial Estate Road hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd.

3. Y darn o ffordd ymuno tua'r gorllewin y gefnffordd yng Nghyffordd Ystad Ddiwydiannol Pant sy'n ymestyn o bwynt 50 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â Rocky Road hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd.

4. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Cefncoedycymer hyd at ei chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Hirwaun.

5. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Hirwaun hyd at ei chyffordd ag ochr de-ddwyreiniol Cylchfan y Rhigos.

6. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan y Rhigos hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Glyn-nedd.

7. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain yng Nghyfnewidfa Glyn-nedd hyd at ei chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan y Rhigos.

8. Y darnau cyfan o'r ffyrdd ymuno tua'r gorllewin a thua'r dwyrain yng Nghyfnewidfa Glyn-nedd.

9. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin yng Nghyfnewidfa Glyn-nedd hyd at ei chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Cwm-gwrach.

10. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Cwm-gwrach hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain yng Nghyfnewidfa Glyn-nedd.

11. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Cwm-gwrach hyd at ei chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Resolfen.

12. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Resolfen hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin yng Nghyfnewidfa Aberdulais.

13. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd (gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain yng Nghyfnewidfa Aberdulais) sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gogledd yng Nghyfnewidfa Aberdulais hyd at ei chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Resolfen.